COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**19 Gorffennaf 2021**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i adroddiad ar uwch-gŵyn Hestia ar ymateb yr heddlu i ddioddefwyr caethwasiaeth modern**

Mae'n bryder, yn arbennig i mi fel comisiynydd gwasanaethau cymorth, bod dioddefwyr sy'n arbennig o agored i niwed yn teimlo nad ydynt yn medru cael mynediad at gymorth a chyfiawnder. Yr wyf yn ddiolchgar i sefydliadau fel Hestia am fod yn llais i'r rhai sydd ddim yn cael eu gweld a'u clywed.

Er ei fod yn anodd iawn deall cyffredinrwydd caethwasiaeth modern yn ein cymunedau oherwydd natur gymhleth a chudd y drosedd, yr wyf wedi cael fy nghalonogi gan Heddlu Dyfed-Powys yn cryfhau ei ymagwedd tuag at fynd i'r afael â chaethwasiaeth modern dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â derbyn diweddariadau rheolaidd am gynnydd yr Heddlu yn y maes hwn, gwnes gais penodol iddynt mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae'n dda gennyf fod yr Heddlu wedi cyflwyno ymateb manwl iawn, sy'n arddangos eu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer ymdrin ag achosion caethwasiaeth modern. Yr wyf wedi fy sicrhau hefyd am eu hymrwymiad parhaus tuag at wella'r ffordd y mae dioddefwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi.

Yn arbennig, mae gan Heddlu Dyfed-Powys:

- ganllawiau, cymorth, cyngor a hyfforddiant cynhwysfawr sy'n ymwneud yn benodol â chaethwasiaeth modern;
- cysylltiadau da â BAWSO, sy'n rhoi cyngor i ddioddefwyr caethwasiaeth modern yng Nghymru; a
- threfniadau goruchwylio effeithiol, yn fewnol ac yn amlasiantaethol, ar gyfer pob achos caethwasiaeth modern.

Disgwylir y bydd achosion caethwasiaeth modern sy'n dod i sylw'r heddlu'n tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn i ddod, ac rwyf wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cynllunio ar gyfer hyn yn Natganiad Rheoli'r Heddlu.

Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad at y gwasanaethau cymorth mwyaf priodol.